Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Y Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2007

1. Roedd y Pwyllgor wedi nodi'r rheoliadau hyn i graffu arnynt ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod ar 1 Mawrth 2007. Cawsant eu trin yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth fel y cytunwyd arno gan y Pwyllgor ar 11 Mehefin 2003, lle mae Aelodau yn rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau neu welliannau y dymunant eu gwneud i'r Rheoliadau.

2. Cynigiwyd dau welliant.

Helen Mary Jones AC:

i. yn adran 4: bydd y ffigwr '£50,000' yn cymryd lle'r ffigwr '£22,000'.

ii. yn adran 5: bydd y ffigwr '£50,000' yn cymryd lle'r ffigwr '£22,000'.

3. Codwyd dau bwynt o esboniad.

Jenny Randerson AC:

i. 2.3% yw'r cynnydd mewn terfyn cyfalaf uchaf i £22,000, sy'n is na'r gyfradd chwyddiant o 2.7% a'r cynnydd o 3.3% mewn enillion cyfartalog yng Nghymru. Pam bod y ffigwr o 2.3% mor isel ag y mae?

ii. O ran y goblygiadau ariannol – pa fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu arian i Awdurdodau Lleol i dalu costau terfynau cyfalaf cynyddol?

Wrth gyflwyno'i gwelliannau dywedodd Helen Mary Jones mai'r egwyddor y tu ôl i'r terfyn oedd diogelu rhai cynilion i bobl eu pasio ymlaen fel etifeddiaeth. Yn y lle cyntaf cafodd y ffigwr ei selio ar 50 y cant o bris tŷ ar gyfartaledd yng Nghymru ond roedd prisiau tai wedi codi ar raddfa uwch nag uwchraddio'r terfynau cyfalaf. Os na fyddai'n bosibl cynyddu'r terfyn ar unwaith, byddai'n ceisio cael cytundeb mewn egwyddor i symud tuag at lefel decach.

Mewn ymateb i hyn a'r pwyntiau o esboniad, eglurodd y Gweinidog fod y terfynau wedi'u talgrynnu i'r £250 agosaf, felly 2.3 y cant ac nid 2.7 y cant oedd y cynnydd canran gwirioneddol. Roedd Deddf Cymorth Gwladol 1948 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol godi tâl priodol am ofal preswyl. Roedd gan y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad i ddarparu cyllid mewn grant cynnal refeniw i alluogi awdurdodau lleol i dalu eu cyfran hwy o'r costau. Amcangyfrifwyd y byddai cynyddu'r terfyn uchaf i £50,000 yn costio rhwng £10 a £15 miliwn y flwyddyn.

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar bob un o'r gwelliannau arfaethedig. Canlyniad y ddwy bleidlais oedd:

O blaid y cynnig: un
Yn erbyn: tri
Ymatal: dau

Methodd y gwelliannau

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd
Mawrth 2007